Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Bwletin y Pwyllgor

## Haf 2025 - Hydref 2025

## Croeso i unfed bwletin ar ddeg y Pwyllgor

Dyma unfed bwletin ar ddeg Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd. Mae'n rhoi trosolwg o weithgareddau diweddaraf y Pwyllgor a'r gweithgareddau sydd ganddo ar y gweill, er mwyn eich helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor ac ymgysylltu ag ef.

Cafodd y bwletin hwn ei baratoi gan y Tîm Clercio sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor. Os oes gennych unrhyw sylwadau, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

### Manylion cyswllt

Gallwch anfon e-bost at Dîm Clercio'r Pwyllgor:
**SeneddEconomi@senedd.cymru**

Ffoniwch ni: 0300 200 6565

Dilynwch ni ar X **@SeneddEconomi**

Gwefan: **www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

## Teyrnged i Hefin David AS

Yn drist iawn, ar 12 Awst 2025, bu farw Hefin David AS. Roedd y tîm sy'n cefnogi'r Pwyllgor wedi'i dristau gan y newyddion hwn a bydd colled ar ei ôl. Roedd Hefin wedi bod yn aelod allweddol o Bwyllgor yr Economi yn ei wahanol ffurfiau ers iddo gael ei ethol gyntaf. Hoffem rannu'r deyrnged hon i Hefin a gyflwynir gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor:

> *"Roedd Hefin yn angerddol am geisio gwella pethau i bobl Cymru. Gan ddefnyddio ei ddeallusrwydd a'i frwdfrydedd sylweddol, gwnaeth gyfraniad pwysig i waith y Pw yllgor ac i drafodaethau cyhoeddus Cymru yn ehangach. Nid oedd ymroddiad Hefin erioed yn gliriach na phan roedd yn gweithio ar y polisi Prentisiaethau, yn ymdrechu i wella'r system a thrwy hynny helpu pobl ledled Cymru i gael gafael ar hyfforddiant fel y gallent wella eu bywydau.*
>
> *Bydd colled fawr ar ei ôl o'm rhan i a holl Aelodau'r Pwyllgor."*

## Gwaith Presennol

### Iechyd y Pridd mewn Amaethyddiaeth

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i Iechyd y Pridd mewn Amaethyddiaeth yn ystod tymor yr Haf, gan gymryd tystiolaeth lafar gan 9 o randdeiliaid, ac yna sesiwn deerfynol gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar 15 Mai 2025.

### Bargeinion Dinesig a Thwf

Yn ystod tymor yr haf, cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad byr o'r Bargeinion Dinesig a Thwf. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar o bob un o'r pedair bargen Twf yng Nghymru ar draws dwy sesiwn. Fel rhan o'r ychwiliad hwn, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad hefyd rhwng 12 Mai 2025 a 23 Mehefin 2025, a daeth 10 o ymatebion i law.

### Dyfodol Dur Cymru

Mae'r Pwyllgor yn parhau i gadw llygad ar y mater pwysig hwn, yn dilyn cau'r ffwrnais chwyth olaf yng ngwaith dur Tata ym Mhort Talbot.

Ar 19 Mehefin 2025, ymwelodd Aelodau o'r Pwyllgor â Chanolfan Gymorth Undeb Community yng Nghanolfan Siopa Aberafan, Port Talbot fel rhan o'r ymchwiliad parhaus hwn. Yn ystod yr ymweliad, cyfarfu'r Aelodau ag uwch gynrychiolwyr o'r Undeb Community a'u sefydliadau partner, gan gynnwys

Busnes Cymru a Chyflogadwyedd Castell-nedd Port Talbot, i glywed rhagor am y cymorth sydd ar gael i'r rhai y mae’r penderfyniad i gau'r ffwrnais chwyth wedi effeithio arnynt.

Wrth edrych ar dymor yr Hydref, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allweddol yn niwydiant Dur Port Talbot, i drafod digwyddiadau a cherrig milltir diweddar ers ei sesiwn dystiolaeth ddiwethaf ym mis Tachwedd 2024.




## Adolygiad o weithredu Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a’r UE

Mae gwaith y Pwyllgor ar y cyd wedi parhau ar yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a’r UE dros dymor yr haf, gyda Hannah Blythyn AS yn cynrychioli'r Pwyllgor ar ymweliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol â Brwsel rhwng 24 a 26 Mehefin fel rhan o'r ymchwiliad.

## Prosesu Bwyd

Lansiodd y Pwyllgor hefyd ei ymchwiliad newydd i Brosesu Bwyd yn ystod tymor yr haf, gan gymryd tystiolaeth gan ystod o randdeiliaid dros 4 panel hyd yn hyn. Cynhaliwyd ymgynghoriad ochr yn ochr â hyn hefyd, a daeth 13 o ymatebion i law rhwng 13 Mai 2025 a 24 Mehefin 2025. Bydd sesiynau tystiolaeth lafar yn parhau ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn ystod tymor yr hydref, gan gynnwys sesiwn olaf gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.


Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd ddigwyddiad bwrdd crwn gyda 22 o randdeiliaid yn Sioe Frenhinol Cymru eleni, ar 22 Gorffennaf 2025. Roedd hwn yn gyfle i drafod materion allweddol yr ymchwiliad mewn lleoliad anffurfiol, a chafwyd trafodaeth ddiddorol iawn i gynorthwyo'r Aelodau i lunio argymhellion i Lywodraeth Cymru i wella sector bwyd Cymru.



## Gweithgareddau Diweddar

### Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru: A all androidau Cymru freuddwydio am ddefaid trydan? ar 20 Mai 2025, gyda dadl yn y Cyfarfod Llawn wedi'i chynllunio ar gyfer tymor yr hydref.




### Dadleuon yn y Cyfarfod Llawn

Ar ôl i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiadau Economi Werdd, Difrod a chau Porthladd Caergybi yn dilyn Storm, a'r Economi Sylfaenol yn nhymor y gwanwyn, cafodd y Pwyllgor ymatebion gan Lywodraeth Cymru a chynhaliwyd dadleuon arnynt yn y Cyfarfod Llawn.

Cafodd yr ymateb i'r adroddiad Economi Werdd ei osod ar 4 Mehefin 2025, a chynhaliwyd y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Mehefin 2025.

Cafodd yr ymateb i'r adroddiad 'Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn dilyn Storm; Canfyddiadau Cychwynnol' ei osod ar 25 Mehefin 2025, a chynhaliwyd y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Gorffennaf 2025.

Cafodd yr ymateb i'r adroddiad Economi Sylfaenol ei osod ar 2 Gorffennaf 2025, a chynhaliwyd y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Gorffennaf 2025.


### Llwybrau Prentisiaeth

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar ei ymchwiliad i Lwybrau Prentisiaeth ar 31 Gorffennaf 2025, yn dilyn y sesiynau tystiolaeth yn ystod tymor y gwanwyn.



## Hybu Cig Cymru

Ar ôl cwblhau sesiynau tystiolaeth lafar ar gyfer yr ymchwiliad yma yn gynnar yn nhymor yr haf, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad hefyd ar Hybu Cig Cymru ar 3 Medi 2025.




## Craffu Cyffredinol

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn Graffu Gyffredinol ar 17 Gorffennaf 2025 gyda Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio; a Jack Sargeant AS, Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol.

Bydd y Pwyllgor yn anelu at barhau â'i waith craffu cyffredinol yn nhymor yr hydref.

### Blaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei raglen waith ar gyfer hydref 2025. Mae'r rhaglen waith yn nodi amcanion cyfredol y Pwyllgor adeg ei chyhoeddi, ond gall newid ar unrhyw adeg er mwyn ymateb i ddigwyddiadau allanol.

Disgwylir i'r gwaith gynnwys craffu cyffredinol pellach gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, yn ogystal â chwblhau tystiolaeth lafar yn yr ymchwiliad Prosesu Bwyd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu y bydd ffocws sawl panel ar Ddyfodol Dur Cymru.

Disgwylir i flaenraglen waith tymor yr hydref y Pwyllgor gael ei harwain yn helaeth gan y broses o gyflwyno deddfwriaeth ddisgwyliedig gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Felly bydd rhagor o fanylion am gyfarfodydd arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer y tymor ar gael pan gaiff hyn ei gadarnhau.

# Cylch gwaith

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021, gyda chylch gorchwyl yn cwmpasu (ond heb fod yn gyfyngedig i): datblygu economaidd, adfywio, sgiliau, masnach, ymchwil a datblygu (gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth), a materion gwledig.

# Aelodau'r Pwyllgor



**Cadeirydd y Pwyllgor: Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru